## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 28ain Tachwedd 2001 am 10.00a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), P. Dobb (Dirprwy ar ran D. Holder), P. Douglas, S. Drew, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, E.R. Jones (Dirprwy ar ran S. Thomas), G. Jones, M.M. Jones (Dirprwy ar ran M.Ll. Davies), P.M. Jones, N. Hugh-Jones, R.E. Jones, A. Owens, W. Roberts (Dirprwy ar ran D. Davies), F. Shaw, K.P. Stevens, D.A. Thomas (Dirprwy ar ran J. Smith), W.G. Thomas, A.J. Tobin, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio, Pen Swyddog Cynllunio a Gorfodi a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, M.Ll. Davies, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, D.M. Holder, R.W. Hughes, R.J.R. Jones, J.A. Smith, S. Thomas a K.E. Wells.

### 960. MATERION BRYS

Rhoddodd y Cadeirydd rybudd o'r eitem ganlynol y dylid yn ei farn ef ei hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972 -

Cais Galw i Mewn - Fferm Wynt yn Nhir Mostyn/Foel Goch, Nantglyn.

### 961. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2001/0243/AD | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)<br>Arddangos 19 arwydd hysbysebu yn y Co-op (LO-Cost Stores Ltd. gynt), Ffordd yr Orsaf, Rhuthun<br>YN AMODOL ar ddileu amod rhif 3; amodau newydd 3 a 4 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>3. Nid oes yr un ffynhonnell golau i fod yn uniongyrchol weladwy i yrwyr cerbydau sy'n defnyddio'r briffordd gyfagos.<br>RHESWM - atal golau llachar neu ddallu er mwyn diogelwch traffig.<br>4. Nid yw disgleirdeb wyneb yr arwyddion arfaethedig i fod yn fwy na 2,000cd/m2 (584tr.L.). |

| | |
|---|---|
| | RHESWM - atal golau llachar neu ddallu er mwyn diogelwch traffig.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Gofynnir i chi gysylltu â'r Swyddog Achos yn yr adain Gwasanaethau Cynllunio i drafod pryderon lleol ynghylch llifoleuo'r adeilad.<br>Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd (1 a 10)<br>A Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991 (Ffurflen Rhan N) |
| 03/2001/0955/PF | Estyn annedd unllawr bresennol yn annedd deulawr drwy ychwanegu llawr cyntaf yn Cip o'r Bont, Mill Street, Llangollen.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-<br>3. Nid oes dim defnyddiau wal allanol i'w defnyddio hyd nes byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig i'r manylion gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| 03/2001/0840/PF | (Cyhoeddodd y Cynghorydd C.H. Williams fudd heb fod yn ariannol yn y cais canlynol)<br>Cadw rhan o'r adeilad presennol, addasu'r tu blaen ac ailddatblygu'r cefn i ffurfio 15 o fflatiau newydd yn Grapes Hotel, Regent Street, Llangollen.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3 ac amod newydd rhif 5 a 6:-<br>3. Ni chaniateir i unrhyw waith ddechrau ar waliau allanol yr adeilad hyd nes byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r math o waith brics a'r cymysgiad morter, gorffeniad a lliw y rendr, a gwaith carreg a morter, y bwriedir eu defnyddio.<br>Amodau Newydd -<br>5. Nid oes dim gwaith i'w ddechrau ar y datblygiad hyd nes bydd datganiad methodoleg manwl yn dangos sut y mae adeilad gwreiddiol y Grapes Hotel i'w ddiogelu a'i sadrwydd i'w sicrhau yn ystod y datblygu wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo; ac mae'r cynllun a gymeradwywyd i'w weithredu yn ei gyfanrwydd wrth yrru'r cynllun yn ei flaen.<br>RHESWM - sicrhau bod yr adeilad gwreiddiol yn cael ei gadw ac nad yw'n cael ei beryglu gan waith dymchwel ac ailddatblygu.<br>6. Nid oes dim gwaith i'w ddechrau ar y datblygiad hyd nes byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i fanylion y defnyddiau sydd i'w defnyddio yn fframiau'r ffenestri a'r drysau, mân fanylion ciliau'r ffenestri yn cynnwys mesur cilfachu fframiau o wyneb y wal allanol, a mân fanylion y nwyddau dŵr glaw, yn cynnwys y modd o guddio peipiau'r landeri ar weddluniau ffordd yr adeilad.<br><br>RHESWM - sicrhau safon datblygu boddhaol er mwyn amwynder gweledol. |
| 17/2001/0841/PF | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth M.J. Holder, Old Ty Hir Farm, Llandegla (3ydd Llythyr) a Swyddog Gwasanaethau Gwyddonol (Gwarchod y Cyhoedd).<br>Codi adeilad da byw amaethyddol yn Ty-Hir, Pen y Stryt, Llandegla, Wrecsam. |
| 20/2001/1029/PF | Codi balconi/feranda/grisiau y tu ôl i'r adeilad yn Nhafarn y Three Pigeons, Graigfechan, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-<br>3. (gwall sillafu) "Inn" |
| 24/2001/0911/PF | Codi adeilad storio amaethyddol ar gyfer porthiant ac offer yng Nghae Rhif 7481 (7480), gynt yn rhan o Ty Coch, Llanynys, Dinbych. |
| 27/2001/0580/PF | Cadw polytwnnel yn Abbey Grange, Llantysilio, Llangollen. |

43/2001/0919/PF (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd)
Codi byngalo a garej ar ei phen ei hun a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau yn Aber Pwll y Bont, Galltmelyd, Prestatyn.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 2 a 5 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd:-
2. nid oes neb i fyw yn yr annedd hyd nes bydd lle wedi'i lunio, yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, o fewn y safle ar gyfer parcio ceir ac i geir droi fel y gallant ddod i mewn i a gadael y safle yn eu blaenau.
5. "wedi gorffen".
Nodyn i'r Ymgeisydd -
Fe'ch cynghorir bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried y byddai'r annedd arfaethedig mewn perygl uchel gan lifogydd.

45/2001/0920/PF Adeiladu ystafell yn ôl-weithredol gyda dormerau ar yr ystlysluniau a chodi estyniad yng nghefn y tŷ annedd gyda balconi drosto yn 22 Eaton Avenue, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2:-
2. ychwanegu "yn cynnwys hongian y teils ar y dormerau sydd i gyd-fynd â'r teils to presennol".

45/2001/0973/PF (Cyhoeddodd y Cynghorwyr A. Owens, P. Douglas, W.G. Thomas ac F. Shaw ddiddordeb yn y cais canlynol fel llywodraethwyr ysgol).
(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd).
Datblygu tir o fewn safle'r ysgol i greu 59 o leoedd parcio ceir ychwanegol yn Ysgol Uwchradd a Chanolfan Hamdden Y Rhyl, 86 Grange Road, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 5:-
5. Cyn cychwyn y datblygiad a ganiateir drwy hyn mae manylion arwynebu'r maes parcio arfaethedig ac arwynebu a marcio'r maes parcio arfaethedig a'r maes parcio presennol i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, a marcio o'r fath i gynnwys isafswm o 6% o leoedd ar gyfer yr anabl o faint a lleoliad priodol.
RHESWM - sicrhau bod y maes parcio'n cael ei ddefnyddio i'w gynhwysedd llawn ac y gwneir darpariaeth ar gyfer yr anabl.
Gofynnodd y Cynghorydd S. Drew ei fod i'w nodi ei bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio.

45/2001/1045/PF Codi estyniad storfa a mynediad grisiau newydd i fflatiau yng nghefn yr arcêd ddifyrion yn 16-17 West Parade, Y Rhyl.

46/2001/1006/PF Codi estyniad to serth unllawr wrth ochr a chefn y tŷ annedd a llunio mynedfa newydd i gerbydau yn 29 Tan y Bryn, Llanelwy.
YN AMODOL ar y rheswm diwygiedig canlynol rhif 3:-
3. "er lles amwynder preswyl".

47/2001/0663/PF (Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a gylchredwyd ac un llythyr yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)
Codi annedd gyfnewid a gosod tanc carthion newydd ar Fferm Fachwen, Waen, Llanelwy.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 4, amod newydd rhif 7, 8 a 9 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd:-
4. mae'r gwrychoedd sydd i'w darparu ar derfynau gogleddol a gorllewinol y safle fel y'u dangosir ar Luniad rhif 01/46/1 Diwygiad A i gynnwys y canlynol - 80% Draenen Wen, 10% Draenen Ddu, 5% Cyll, 3% Celyn, 2% Rhosod Gwyllt, wedi'u plannu ar uchder o 45-60cm, 4

y metr wedi'u plannu mewn 2 res igam-ogam gyda ffensys sy'n dal stoc. Yr holl blannu, hadu, tywarchu ayb...

7. mae'r tanc carthion arfaethedig a'r system ffos gerrig atodol i gydymffurfio â BS6297 ac nid oes yr un rhan o'r system i'w lleoli o fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵr.

RHESWM - sicrhau bod y safle'n cael ei ddraenio'n iawn a lleihau'r perygl o lygredd.

8. Er gwaethaf darpariaethau Dosbarth G Rhan 1 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, nid oes unrhyw gynhwysydd i storio olew i'w godi na'i ddarparu o fewn cwrtil y tŷ annedd oni bai ei fod wedi'i leoli ar sylfaen anhydraidd a'i amgylchynu gan waliau bwnd anhydraidd. Mae cyfaint y caeadle bwnd i fod o leiaf gymaint â chynhwysedd y tanc a 10% ar ben hynny. Mae'r holl fannau llenwi, fentiau, mesuryddion a gwydrynnau archwilio i fod wedi'u selio heb ddim arllwysiad i unrhyw gwrs dŵr, tir neu strata tanddaearol. Mae'r gwaith pibelli cysylltiedig i'w leoli uwch ben y ddaear a'i ddiogelu rhag difrod damweiniol.

RHESWM - atal llygru'r amgylchedd dŵr.

9. Nid yw'r un o'r coed neu'r gwrychoedd a ddangosir ar y cynlluniau arfaethedig fel rhai sydd i'w cadw i'w torri, eu brigdorri neu'u tocio heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. Mae unrhyw goed neu blanhigion gwrych sy'n marw neu'n cael eu niweidio'n arw neu'n cael eu heintio'n ddifrifol o fewn pum mlynedd i gwblhau'r datblygiad i'w cyfnewid am goed neu blanhigion gwrych o ba bynnag faint a rhywogaeth sydd i'w gytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESWM - Diogelu'r coed a'r gwrychoedd presennol ar y safle, er mwyn amwynderau gweledol y gymdogaeth.

Nodiadau Arbennig i'r Ymgeisydd.

Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd sydd ynghlwm Rhif 1, 3, 4, 5 a 10.

47/2001/1000/PF

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)

Adnewyddu Cais Cyfeirnod 47/718/96/PF sy'n cynnwys newid defnydd o ardd farchnad yn barc carafanau teithio a chalets gyda lledu ffordd a newidiadau cysylltiedig i'r fynedfa bresennol i gerbydau a gosod tanc carthion newydd yn Waen Market Gardens, Ffordd Waen, Rhuddlan, Y Rhyl.

YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 2 a 13, amodau newydd rhif 15 a 16 a Nodiadau ychwanegol i'r Ymgeisydd:-

2. Mae'r carafanau sy'n defnyddio'r safle i fod yn garafanau ar daith yn unig ac nid oes yr un garafan i aros ar y safle am unrhyw gyfnod hwy na 21 diwrnod.

13. Mae deiliadaeth y chalets a ganiateir drwy hyn i'w chyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig ac nid yw'r chalets i'w defnyddio fel yr unig/brif uned lle byw. Mae cofrestr i'w chadw o ddeiliadaeth y chalets a rhaid trefnu ei bod ar gael i'w harchwilio ar gais yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

15. Mae cyfleusterau i'w darparu a'u cynnal o fewn y safle ar gyfer llwytho a dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo; ac mae cynllun o'r fath i'w gwblhau cyn cychwyn y defnydd a ganiateir drwy hyn.

RHESWM - er mwyn amwynder a diogelwch y briffordd drwy sicrhau bod digon o le ar gael i'r holl gerbydau sy'n ymweld â'r eiddo barcio a throi yn glir o'r briffordd.

16. Mae'r lleiniau gweledd a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd bob amser i'w cadw'n glir o unrhyw blannu, tyfiant coed neu lwyni, neu unrhyw rwystr arall sy'n fwy na 1.05 metr yn uwch na lefel y lôn gerbydau gyfagos.

RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd.
Nodiadau Arbennig i'r Ymgeisydd -
Rhaid i'r Ymgeisydd wneud profion mandylledd pridd yn unol â'r gweithdrefnau a osodir yn y Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 er mwyn penderfynu addasrwydd yr isbridd a faint o dir sydd ei angen ar gyfer y ffos gerrig. Petai prawf o'r fath yn dangos bod cyflwr y pridd yn anaddas ar gyfer cael gwared ag elifiant carthion yn effeithiol, yna dylai'r ymgeisydd gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch dull derbyniol arall o drin/waredu carthion.
Os yw'r datblygwr yn bwriadu arllwys elifiant o'r tanc carthion/offer trin carthion trwy arall heblaw system ffos gerrig, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Awdurdod hwn ynghylch y gofyniad am ganiatâd arllwys yn unol â'r Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
Fe'ch hysbysir o'r angen i sicrhau trwydded safle carafanau oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor dan Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygiad.
Mae Grwp Mynediad Sir Ddinbych wedi gofyn am fanylebau'n ymwneud â chyfleusterau pobl anabl. A fyddech mor garedig â gofyn am gyngor gan y Grwp ar e-bost - denbaccess@aol.com.
Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhif 1, 3, 4, 5 a 10.
Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn hysbysu y bydd angen llunio Cytundeb Adran 278 dan y Ddeddf Priffyrdd cyn cychwyn y datblygiad.
Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991).

(ii) Gwrthod

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 45/2001/1010/PC | Cadw blaen siop fel y'i hadeiladwyd yn 29-31 Water Street, Y Rhyl. |

Wedi i'r nifer gofynnol o aelodau ofyn am BLEIDLAIS GOFNODEDIG, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn argymhelliad y swyddog i WRTHOD caniatâd cynllunio i'r cynnig.
<u>O blaid yr argymhelliad i Wrthod (15)</u>
P.A.Dobb, P. Douglas, K.N. Hawkins,N.J.Hughes,N. Hugh-Jones, E.R. Jones, F.D. Jones, G.Jones, M.M. Jones, R.E.Jones, E.A. Owens, F.Shaw, A.J.Tobin, C.H. Williams, P.O. Williams

<u>Yn Erbyn yr Argymhelliad (5)</u>
S.Drew, P.M. Jones, K.P. Stevens, W.G. Thomas, R. Ll. Williams
<u>Wedi Atal ei Bleidlais (1)</u>
D.A. Thomas

*(b) gohiriwyd y cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 31/2001/0963/PF | Addasu a newidiadau i'r tai allan i ffurfio 2 Annedd a gosod tanc carthion newydd yn y Tai Allan yn Pen y Bryn, Wigfair, Llanelwy. RHESWM - ystyried polisïau cynllunio a chaniatáu edrych ar y Rheoliadau Adeiladu. |

*(c)* *bod y cais canlynol i'w ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 22/2001/0853/PF | Codi estyniad i addasiad adeilad llaethdy yn dþ annedd sydd wedi'i gymeradwo'n flaenorol a'i ganiatáu dan Rif Côd 22/2001/0291/PF ar Fferm Plas yn Rhos, Llanychan, Rhuthun.<br>Gofynnodd y Cynghorydd P. Douglas iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio'n erbyn cael ymweliad safle. |

**962. <u>MATERION GORFODI</u>**

<u>ENF/147/98/S</u>

Cyflwr tir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder y gymdogaeth yn Iard yr Orsaf, Ffordd yr Orsaf, Dinbych.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

*(a)* *cyflwyno Rhybudd dan ddarpariaethau Adran 215 y Ddeddf yn mynnu bod pa bynnag gamau sydd eu hangen i wella cyflwr y tir yn cael eu cymryd;*

*(b)* *cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio os yw'r sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybuddion iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.*

<u>ENF/100/01/N</u>

Blaen siop heb awdurdod yn 29-31 Water Street, Y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

*(a)* *cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau gorffeniad lliw priodol i flaen y siop fel y'i gosodwyd;*

*(b)* *cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath, iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio, o fewn chwe mis i'r Rhybudd, â'i ofynion.*

**963. <u>DATBLYGIAD TELATHREBU</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r Aelodau ar y materion cyfredol yn ymwneud â datblygiad telathrebu ac ar ymateb swyddogion i gynnig y Cynulliad Cenedlaethol ar Asesiad Effaith Reoleiddiol Interim.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth.*

Hysbysodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones y Pwyllgor o fudd y seminar telathrebu a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, ac awgrymodd fod sesiwn arall i'w drefnu ar gyfer Gogledd-Ddwyrain Cymru.

Hefyd cyfeiriodd y Cynghorydd Hugh-Jones at y rheini a fynychodd Seminar Caernarfon a chynigiodd fod y Pwyllgor Cynllunio yn argymell i'r Cabinet fod costau teithio i'w hanrhydeddu.

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i'r Cabinet gymeradwyo costau perthnasol i'r rheini a fynychodd y Seminar Telathrebu yng Nghaernarfon ar 19eg Hydref 2001.*

**964. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar 5ed Rhagfyr 2001 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliadau safle cymeradwyedig ar 5ed Rhagfyr 2001.*

**965. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 11eg Hydref 2001 a 9fed Tachwedd 2001.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**966. CAIS GALW I MEWN**
**FFERM WYNT 25 TYRBIN ARFAETHEDIG YN NHIR MOSTYN/FOEL GOCH, NANTGLYN**
**CAIS CYNLLUNIO 25/710/99/PF**

Cylchredwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn manylu ar newidiadau arfaethedig i leoliad rhai o dyrbinau'r fferm wynt ac yn gofyn am farn y Pwyllgor ar y newidiadau ac effaith y newidiadau hynny ar yr amodau a'r Ymrwymiad Adran 106 a gymeradwywyd yn flaenorol.

***PENDERFYNWYD** hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio nad yw Cyngor Sir Ddinbych fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn codi unrhyw wrthwynebiad i'r newidiadau a gynigiwyd ac yn gofyn bod caniatâd cynllunio i'w roi i'r fferm wynt yn amodol ar gynnwys amodau addas ac Ymrwymiad Adran 106 yn unol â Dogfennau DCC1 a DCC2 a gymeradwywyd ym Mhwyllgor mis Tachwedd 2001.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30a.m.

**************